



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

## **Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru 2014–2018**

### **CCUHP Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant**

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Gangen Cymorth a Chanllawiau Ieuencid  
Yr Adran Addysg a Sgiliau  
Llywodraeth Cymru  
Sarn Mynach  
Cyffordd Llandudno  
LL31 9RZ


**Dogfennau cysylltiedig**

Mae'r Strategaeth Gwaith Ieuencid  
Gendedlaethol ar gael o wefan Llywodraeth  
Cymru yn  
[http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/  
skillsandtraining/national-youth-work-  
strategy-for-wales/?skip=1&lang=cy](http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/national-youth-work-strategy-for-wales/?skip=1&lang=cy)

# Cynnwys

<b>Chwe cham at sylw ddyledus</b>	<b>2</b>
Cam 1. Beth yw'r darn o waith a'i amcan(ion)?	2
Cam 2. Dadansoddi'r effaith	4
Cam 3. Sut mae'r darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?	8
Cam 4. Cyngori'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog	10
Cam 5. Cofnodi a chyhoeddi'r canlyniad	12
Cam 6. Adolygu'r darn o waith fel bo'r angen	13
<b>Cyllidebau</b>	<b>14</b>
Monitro ac adolygu	14

# Chwe cham at sylw dyledus



## Cam 1. Beth yw'r darn o waith a'i amcan(ion)?

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i ddiweddarau'r Strategaeth ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid (ymrwymiad 5/034).

Mae gan waith ieuenctid rôl bwysig i'w chwarae o ran cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i helpu pawb i gyflawni eu potensial, trechu tlodi, lleihau anghydraddoldeb, gwella cyrhaeddiad addysgol a lefelau cyflogaeth, gwella lles economaidd a chymdeithasol, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau eraill a chynyddu cyfranogiad pobl ifanc mewn cymdeithas.

Cynigir darpariaeth gwaith ieuenctid drwy wasanaethau ieuenctid. Mae gwaith ieuenctid yn rhan annatod o wasanaethau cymorth ieuenctid sy'n ceisio sicrhau bod pob person ifanc rhwng 11 a 25 oed yn cael y gwasanaethau, y cymorth a'r profiadau sydd eu hangen arnynt er mwyn cyflawni eu potensial. Yng Nghymru mae'r gwasanaeth ieuenctid yn hawl sylfaenol, sy'n agored i bob person ifanc rhwng 11 a 25 oed. Drwy Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, adran 123(1), mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid, sicrhau eu bod yn cael eu darparu neu gymryd rhan yn y gwaith o'u darparu.

Nod y strategaeth fydd rhoi cyfeiriad i'r rhai sy'n cynllunio ac yn cyflwyno darpariaeth gwaith ieuenctid. Bydd yn disodli'r *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru; pobl ifanc, gwaith ieuenctid, gwasanaeth ieuenctid (2007)*. Bydd yn cydweddu â chyd-destun ehangach a bennir gan y ddogfen *Ymestyn Hawliau* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2002. Nododd *Ymestyn Hawliau* sail statudol a chyfarwyddiadau i'r Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru am y tro cyntaf. Nododd, yng nghyd-destun darpariaeth gwaith ieuenctid, fod 'addysg anffurfiol' yn cyfeirio at broses o ddysgu sy'n cynnwys pobl ifanc yn ymgysylltu'n wirfoddol â gwasanaethau sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o brofiadau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo eu datblygiad personol a chymdeithasol. Aeth *Ymestyn Hawliau* ati i godi ein disgwyliadau a'n dyheadau ar gyfer pob person ifanc a chau'r bwlch rhwng y rhai mwyaf

breintiedig a'r rhai lleiaf breintiedig. Bydd hefyd yn cefnogi cynllun gweithredu'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid – Cynllun gweithredu*.

Bydd yn cefnogi Strategaeth Ieuenctid yr UE (2010–2018) – sydd â'r nod o gynnig mwy o gyfleoedd a chyfleoedd cyfartal i bobl ifanc mewn addysg ac yn y farchnad lafur. Bydd hefyd yn cefnogi nod agenda 2020 Cyngor Ewrop i integreiddio pob person ifanc yn llwyddiannus mewn cymdeithas, gan sicrhau y gall pobl ifanc fanteisio ar addysg o safon a'u galluogi i gyfrannu at ddatblygiad cymdeithas.

Ym mis Awst 2012 gohiriodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yr ymgynghoriad ar Strategaeth newydd ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol yng Nghymru tan y gwanwyn yn 2013, a hynny er mwyn darparu ar gyfer datblygu'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid* ac ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid allanol.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar weledigaeth ar gyfer strategaeth gwaith ieuenctid genedlaethol i Gymru rhwng 18 Mehefin 2013 ac 16 Medi 2013. Cyhoeddwyd y fersiwn terfynol Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru ar 20 Chwefror 2014.

Y buddiolwyr bwriadedig yw sefydliadau sy'n cynnig darpariaeth gwaith ieuenctid gan gynnwys y gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol a phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed.

Drwy'r strategaeth mae Llywodraeth Cymru am gynyddu gwerth a chodi statws gwaith ieuenctid fel gwasanaeth a phroffesiwn. Rydym am weld darpariaeth gwaith ieuenctid yn cael ei chyflwyno er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cau'r blwch o ran cyflawniad addysgol rhwng y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol a lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Drwy roi'r strategaeth ar waith disgwylir i bartneriaid cyflawni ledled Cymru ddatblygu cynnig mwy cyson o ran gwaith ieuenctid o safon uchel i bobl ifanc.

## Cam 2. Dadansoddi'r effaith

Mae gwaith ieuencid yn darparu ac yn hwyluso amgylchedd lle y gall pobl ifanc ymlacio, cael hwyl a theimlo eu bod yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi. Drwy gyfleoedd a phrofiadau addysgol heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol mae dulliau gwaith ieuencid yn herio pobl ifanc i wella eu datblygiad personol, cymdeithasol a gwleidyddol. Drwy gymryd rhan mewn gwaith ieuencid gall pobl ifanc ddysgu cymryd mwy o reolaeth dros eu bywydau a chael eu helpu i adnabod a gwrthsefyll y dylanwadau niweidiol a all effeithio arnynt.

Mae arfer gwaith ieuencid yn ymrwymedig i ffordd gyfranogol o weithio sy'n annog pobl ifanc i rannu cyfrifoldeb a bod yn bartneriaid cyfartal yn eu prosesau dysgu a gwneud penderfyniadau ac sy'n eu galluogi i wneud hynny. Fel hyn mae gwaith ieuencid yn ceisio annog pobl ifanc i fod yn ddinasyddion gweithredol a chymryd rhan mewn cymdeithas, dull gweithredu sy'n cefnogi egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Cydnabu adroddiad blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2011/12 fod gwaith ieuencid yn helpu pobl ifanc i wireddu a deall eu hawliau. Tynnodd yr adroddiad sylw at bryderon bod disgwyl i strategaeth ieuencid Cymru gael ei diweddarau ers 2010. Galwodd y Comisiynydd Plant ar i Lywodraeth Cymru ymdrin â'r oedi ac adeiladu ar sylfeini ardderchog *Ymestyn Hawliau* wrth ddarparu strategaeth sy'n seiliedig ar hawliau yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a rhoi i'r sector gwaith ieuencid yng Nghymru y cyfeiriad a'r cymorth sydd ei angen arno.

Mae effeithiau bwriadedig y strategaeth oll yn rhai cadarnhaol. Ni ragwelir y bydd y strategaeth hon yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar blant na phobl ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru am weld pobl ifanc ledled Cymru yn parhau i allu manteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol sy'n ehangu gorwelion, yn herio eu ffordd o feddwl ac yn datblygu eu sgiliau. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod darpariaeth mynediad agored yn cynnig amgylchedd diogel lle y gall pobl ifanc ymgysylltu â gweithwyr ieuencid a all eu helpu a'u cefnogi wrth iddynt newid o fod yn blentyn i fod yn oedolyn. Dangosodd ein hymgyngoriadau fod llawer o bobl ifanc yn rhoi gwerth mawr ar wasanaethau mynediad agored oherwydd parhad y cymorth y maent yn ei gynnig o fewn cymunedau. Dylid defnyddio darpariaeth mynediad agored i gysylltu pobl ifanc yn effeithiol â chymorth mwy penodol neu arbenigol os bydd hynny'n briodol. Er mwyn helpu i gyflawni hyn bydd angen i ddarparwyr statudol a gwirfoddol gydweithio er mwyn sicrhau bod eu hadnoddau cyfyngedig yn cael yr effaith fwyaf posibl a chynnig darpariaeth gydlynol o safon uchel, sy'n fwy cydgysylltiedig a chyson, i bobl ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru am atgyfnerthu'r gydberthynas strategol rhwng sefydliadau gwaith ieuencid ac addysg ffurfiol er mwyn helpu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant prif ffrwd a

chau'r bwloch o ran cyflawniad addysgol. Mae ymchwil wedi dangos y gall arfer gwaith ieuencid wella lefelau presenoldeb pobl ifanc yn yr ysgol, eu hymddygiad, eu cymhelliad a'u cydberthnasau. Nododd hefyd y gall profiadau dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth hyrwyddo cyfranogi a chyflawni yn yr ysgol<sup>1</sup>. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod proffesiynoldeb a hygredd gweithwyr ieuencid yn hanfodol i sicrhau cydberthynas gryfach â darparwyr addysg ffurfiol.

Argymhellodd adroddiad Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, sef *Symudiad Ymlaen: Y Sylfeini ar gyfer Twf* (Mai 2010), y dylai'r Gwasanaeth Ieuencid chwarae rôl fwy o lawer o ran mynd i'r afael ag ymddieithrio. Bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r strategaeth helpu i sicrhau lleihad parhaus yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant boed hynny o ganlyniad i ymyriadau a chymorth addysg neu iechyd neu ymyriadau a chymorth cysylltiedig eraill. Bydd y strategaeth yn cefnogi *Cynllun Gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Nod y fframwaith yw helpu i gynniig darpariaeth fwy cyson ac integredig i bobl ifanc. Un o'r dyheadau allweddol ar gyfer rhoi'r fframwaith ar waith yw y creir rhwydwaith o 'weithwyr arweiniol' a fydd yn sicrhau parhad o ran cymorth a chysylltiad i bobl ifanc sy'n agored i niwed ac yn eu helpu i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth ehangach a'u defnyddio. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod gan weithwyr ieuencid y sgiliau i chwarae rôl y gweithiwr arweiniol ar gyfer llawer o'r bobl ifanc y nodwyd bod angen cymorth arnynt i'w hatal rhag ymddieithrio rhag addysg a hyfforddiant neu i'w helpu i ail-ymgysylltu, a'u bod mewn sefyllfa dda i chwarae'r rôl honno.

Mae sail dystiolaeth atgyfnerthedig a chadarn ar effaith gwaith ieuencid yn hanfodol i lywio'r gwaith o ddatblygu cynniig gwaith ieuencid cenedlaethol mwy cyson o safon uchel ledled Cymru. Mae angen i sefydliadau gwaith ieuencid allu dangos eu heffaith yn genedlaethol er mwyn dangos eu bod yn cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Dylid datblygu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol er mwyn asesu gwerth cyfraniad sefydliadau gwaith ieuencid. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod hyn yn angenrheidiol er mwyn ategu safle strategol y sector a llywio penderfyniadau hirdymor a thymor canolig ynghylch buddsoddi mewn gwaith ieuencid yn y dyfodol.

Mae Gwasanaethau Ieuencid yn cael arian craidd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau gwaith ieuencid drwy'r Grant Setliad Refeniw. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Grant Setliad Refeniw yn cael ei wario'n briodol ar bobl ifanc. Fodd bynnag, mae'r Grant Setliad Refeniw yn ffrwd ariannu heb ei neilltuo. Felly, mater i awdurdodau lleol yw penderfynu sut y caiff yr arian hwn ei ddefnyddio er mwyn diwallu eu hanghenion a'u blaenoriaethau orau. O ganlyniad, mae hyn wedi arwain at amrywiadau mawr o ran y symiau a ddyrennir gan Awdurdodau Lleol mewn gwirionedd i ddarpariaeth ieuencid. Dangosodd Archwiliad Gwasanaethau Ieuencid Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011/12 fod y Grant

<sup>1</sup> *The Contribution of Non-formal Learning to Young People's Life Chances: Learning from the Evidence* (NYA a Chymdeithas Fabian, 2008).

Setliad Refeniw a ddyrannwyd i Wasanaethau Ieuencid yn amrywio rhwng awdurdodau lleol, o 36% yn Sir Gaerfyrddin i 106% ym Mhowys. Ni ellir pennu canlyniadau ar gyfer y Gwasanaeth Ieuencid o ran gwariant drwy'r Grant Setliad Refeniw. Byddai datblygu canllawiau statudol ar ddarparu gwasanaethau ieuencid yn cryfhau'r diffiniad o ofynion o ran darpariaeth ar lefel awdurdod lleol. Fodd bynnag, os na fydd cosbau cadarn ar waith i ymdrin ag achosion o beidio â chydymffurfio, nid yw'r glir a fyddai cyflwyno canllawiau statudol yn arwain at gamau gweithredu cadarnhaol ar lawr gwlad mewn gwirionedd.

Mae erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi'u defnyddio i ddatblygu'r Strategaeth a'i chanlyniadau cysylltiedig. Er enghraifft, un o ganlyniadau disgwylidig y Strategaeth newydd yw y 'bydd gan bobl ifanc lais' sy'n cysylltu'n uniongyrchol ag erthygl 12 y Confensiwn.

Wrth ddatblygu'r strategaeth mae swyddogion wedi ymgysylltu a chyfarfod â rhanddeiliaid, gan gynnwys Prif Weithredwr a Chadeirydd Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gorfodol, prif swyddogion ieuencid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac Estyn er mwyn llywio'r syniadaeth ynghylch gweledigaeth newydd ar gyfer Strategaeth Gwaith Ieuencid Genedlaethol, a byddant yn parhau i wneud hynny. Byddwn yn rhannu drafft terfynol â rhanddeiliaid er mwyn iddynt gyflwyno sylwadau terfynol arno cyn ei gyflwyno i'r Gweinidog.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar weledigaeth ar gyfer strategaeth newydd ar gyfer strategaeth gwaith ieuencid genedlaethol i Gymru rhwng 18 Mehefin 2013 ac 16 Medi 2013. Cafwyd cyfanswm o 71 o ymatebion ar-lein. Cynhaliwyd pedwar digwyddiad ymgynghori ledled Cymru yn ystod mis Gorffennaf. Gwnaeth cyfanswm o 131 o bobl fynychu'r digwyddiadau a chymryd rhan ynddynt.

Dyfarnodd Llywodraeth Cymru contract i Youth Friendly er mwyn iddo gynnal digwyddiadau ymgynghori â phobl ifanc ar y weledigaeth newydd. Cymerodd 127 o bobl ifanc ran yn un o'r pum digwyddiad ymgynghori. Lluniodd Youth Friendly grynodedb o'r ymatebion a gafwyd gan bobl ifanc.

Mae'r sylwadau a gafwyd o bob un o'r ymgynghoriadau wedi dylanwadu ar syniadaeth a'r broses o ddatblygu'r Strategaeth Gwaith Ieuencid Genedlaethol newydd i Gymru.

Roedd y papur ymgynghori yn canolbwyntio ar dair thema, sef: darparu addysg; meithrin gallu ac atebolrwydd a chanlyniadau. Er bod cefnogaeth gyffredinol i'r manylion, roedd yr ymatebion a'r adborth yn canolbwyntio ar bryderon bod gormod o bwyslais yn y ddogfen ymgynghori ar ddarpariaeth wedi'i thargedu sy'n cyd-fynd ag addysg brif ffrwd a bod hyn yn peri risg o ran darparu adnoddau ar gyfer darpariaeth mynediad agored yn y dyfodol sy'n helpu i ddarparu llwybr i gymorth ar gyfer pobl ifanc ac yn sicrhau parhad o ran cymorth dros amser pan fydd pobl ifanc yn symud i mewn i raglenni neu becynnau cymorth eraill neu allan ohonynt.

Mae negeseuon allweddol o fewn y strategaeth derfynol yn cynnwys y



canlynol:

- a. yr angen i ddatblygu rôl darpariaeth gwaith ieuenctid mewn perthynas â darpariaeth addysg ffurfiol ymhellach – gyda gwasanaethau gwaith ieuenctid yn dod yn bartner strategol er mwyn helpu i gyflawni'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid*
- b. cydnabod gwerth darpariaeth gwaith ieuenctid mynediad agored a'r rôl y mae'n ei chwarae o ran darparu llwybr i gymorth mwy penodol
- c. yr awydd i symud tuag at gynnig gwaith ieuenctid mwy cyson ledled Cymru
- d. pwysigrwydd datblygu a gwella trefniadau cydweithredu rhwng sefydliadau ieuenctid statudol a gwirfoddol
- e. yr angen i ddarparu tystiolaeth well o effaith gwaith ieuenctid.

Bydd y strategaeth newydd hefyd yn cefnogi'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid*. Argymhellodd y cynllun gweithredu cenedlaethol y dylai awdurdodau lleol sicrhau bod eu Gwasanaeth Ieuenctid mewn sefyllfa i chwarae rôl allweddol o ran helpu i gyflawni'r fframwaith.

Nododd yr ymgynghoriad gynigion i sefydlu Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid. Roedd cefnogaeth eang i'r cynigion hyn ac roedd rhanddeiliaid o'r farn bod y fath grŵp cyfeirio mewn sefyllfa dda i ddatblygu nifer o drafodaethau a champau gweithredu strategol o fewn y strategaeth. Bydd y grŵp hwn yn ein helpu i nodi a yw'r strategaeth wedi bod yn llwyddiant.

Roedd cefnogaeth eang i'r cynnig i gyflwyno canllawiau statudol yn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, yng nghyd-destun y pwysau sylweddol sydd ar gyllidebau awdurdodau lleol, yr angen i atgyfnerthu'r sail dystiolaeth ar effaith darpariaeth gwaith ieuenctid (ac, felly, yr hyn sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau) ac amser i ymgorffori'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid*, caiff p'un a ddylid datblygu canllawiau statudol (a pha fath o ganllawiau) eu trafod ymhellach gan y Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid newydd.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ac yn ei roi ar waith gyda rhanddeiliaid erbyn mis Medi 2015. Bydd hyn yn dangos llwyddiant yn yr hirdymor ac fe'i defnyddir i lywio syniadaeth a buddsoddi yn y dyfodol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu Nod Ansawdd ar gyfer gwaith ieuenctid, er mwyn herio sefydliadau gwaith ieuenctid a gwella safon ymarfer.

Er mwyn mesur llwyddiant y strategaeth hon ac ystyried cwmpas, gwerth ac effaith gwaith ieuenctid, gan gynnwys ei gyfraniad i gyflogadwyedd, caiff gwerthusiad annibynnol ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2017.

### **Cam 3. Sut mae eich darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?**

Mae arfer gwaith ieuenctid yn ymrwymedig i ffordd gyfranogol o weithio sy'n annog pobl ifanc i rannu cyfrifoldeb a bod yn bartneriaid cyfartal yn y prosesau dysgu a gwneud penderfyniadau ac sy'n eu galluogi i wneud hynny. Mae gwaith ieuenctid yn cydnabod bod gan bobl ifanc hawliau ac mae'n gweithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar hawliau ond mae hefyd yn cydnabod bod cyfrifoldebau a gofynion yn cael eu gosod ar bobl ifanc. Mae arfer gwaith ieuenctid yn helpu pobl ifanc i ddeall eu cyfrifoldebau. Mae'r dull gweithredu hwn yn helpu pobl ifanc i fynd i'r afael â'r materion personol, cymdeithasol a gwleidyddol sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'n cynnwys ac yn grymuso pobl ifanc, gan eu helpu i ddatblygu a meithrin eu gallu a'u gwydnwch i ddod yn fwy annibynnol wrth newid o fod yn blentyn i fod yn oedolyn. Cydnabyddir bod gwaith ieuenctid yn ddarparwr allweddol o ran galluogi pobl ifanc i arfer llawer o'u hawliau. Yn y strategaeth rydym yn bwriadu hyrwyddo'r canlyniadau canlynol.

#### **Cyfranogiad gweithredol**

- Mae pobl ifanc yn mwynhau ac yn cyflawni.
- Mae pobl ifanc yn gwneud cyfraniad cadarnhaol.
- Mae gan bobl ifanc lais.
- Mae gan bobl ifanc hawl i leisio eu barn a disgwyl i'r farn honno gael ei hystyried.
- Gwell lles.
- Sgiliau ymarferol datblygedig/gwella sgiliau ymarferol.
- Mae pobl ifanc yn dysgu i reoli risg.

#### **Datblygu sgiliau ehangach**

- Adeiladu tîm.
- Cyfathrebu.
- Datrys problemau.
- Gwneud penderfyniadau.
- Dylanwadu ar eraill.

#### **Lefel uwch o gymhwysedd emosiynol**

- Lefelau uwch o hyder a hunangymhelliant.
- Lefelau uwch o hunanymwybyddiaeth, cymhelliant a hunan-barch.
- Y gallu i ddatblygu a chynnal cydberthnasau.
- Dangos empathi tuag at bobl eraill ac ystyriaeth ohonynt.

Gellir canfod pob un o'r canlyniadau uchod yn yr erthyglau canlynol yng Nghonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

- Erthygl 1** Mae gan bawb dan ddeunaw oed yr holl hawliau sydd yn y confensiwn hwn.
- Erthygl 2** Mae'r Confensiwn yn gymwys i bawb, beth bynnag fo'i hil, crefydd, galluoedd, beth bynnag a feddylia neu a ddywed a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.
- Erthygl 3** Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd

- orau i bob plentyn.
- Erthygl 4** Dylai llywodraethau sicrhau bod yr hawliau hyn ar gael i blant.
- Erthygl 5** Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfarwyddo ac arwain eu plant fel eu bod, wrth dyfu, yn dysgu sut i ddefnyddio eu hawliau'n briodol.
- Erthygl 12** Mae gan blant yr hawl i roi eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd, pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried.
- Erthygl 13** Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn eu niweidio hwy na phobl eraill
- Erthygl 15** Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac ymuno â grwpiau a sefydliadau, ar yr amod nad yw hyn yn atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.
- Erthygl 16** Mae gan blant yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu diogelu rhag ymosodiadau ar eu ffordd o fyw.
- Erthygl 17** Mae gan blant yr hawl i gael gwybodaeth ddibynadwy gan y cyfryngau torfol. Dylai teledu, radio a phapurau newydd roi gwybodaeth y gall plant ei deall ac ni ddylent hybu deunyddiau a allai niweidio plant.
- Erthygl 28** Mae gan blant yr hawl i addysg.
- Erthygl 29** Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalent pob plentyn yn llawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni a'u diwylliant eu hunain a diwylliant pobl eraill.
- Erthygl 30** Mae gan blant yr hawl i ddysgu a defnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd.
- Erthygl 31** Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn amrywiaeth eang o weithgareddau.

Mae gan waith ieuenctid o safon uchel rôl hollbwysig i'w chwarae o ran helpu llawer o bobl ifanc i gyflawni eu potensial llawn. Drwy'r cyfeiriad y byddwn yn ei bennu o fewn y Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol newydd a'r camau gweithredu a fydd yn helpu i'w rhoi ar waith, rydym am gynyddu gwerth a chodi statws gwaith ieuenctid fel gwasanaeth a phroffesiwn a fydd yn rhoi blaenoriaeth i gau'r bwlch o ran cyflawniad addysgol rhwng y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol a lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

## Cam 4. Cynghori'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog

Ni nodwyd unrhyw wrthdaro rhwng y cyfeiriad a bennir yn y strategaeth hon a'r Erthyglau yn CCUHP.

Bydd cysylltiadau clir rhwng y strategaeth a'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid*, un o'r dyheadau allweddol ar gyfer rhoi'r fframwaith ar waith yw y creir rhwydwaith o 'weithwyr arweiniol' a fydd yn sicrhau parhad o ran cymorth a chysylltiad i bobl ifanc sy'n agored i niwed ac yn eu helpu i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth ehangach a'u defnyddio. Mae gan weithwyr ieuencid y sgiliau i chwarae rôl y gweithiwr arweiniol ar gyfer llawer o'r bobl ifanc y nodwyd bod angen cymorth arnynt i'w hatal rhag ymddieithrio rhag addysg a hyfforddiant neu i'w helpu i ail-ymgysylltu, ac maent mewn sefyllfa dda i chwarae'r rôl honno.

Hefyd, bydd cysylltiadau clir rhyngddi a Strategaeth y Gymraeg. Gall darpariaeth gwaith ieuencid mynediad agored gynig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg a meithrin eu hyder wrth wneud hynny mewn lleoliad anffurfiol. Felly, dylid ystyried yr angen i helpu i ddatblygu'r iaith Gymraeg a darparu ar gyfer dysgwyr Cymraeg wrth gynllunio a darparu gwaith ieuencid, p'un a yw'n ddarpariaeth mynediad agored neu'n ddarpariaeth wedi'i thargedu.

Ymgynghorwyd yn llawn â phobl ifanc a rhanddeiliaid, gan gynnwys rhanddeiliaid sy'n cynrychioli grwpiau cydraddoldeb eraill a phobl â nodweddion gwarchoddedig, ynghylch gweledigaeth newydd ar gyfer y Gwasanaeth Ieuencid.

Ym manyldeb y tendr ar gyfer yr ymgynghoriad â phobl ifanc rydym wedi holi'r grwpiau canlynol: Grwpiau penodol o bobl ifanc sy'n agored i niwed megis pobl ifanc o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol:

- pobl ifanc o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig
- pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf
- pobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig a/neu anabledau corfforol
- pobl ifanc o deuluoedd mudol, gweithwyr mudol a ffoaduriaid sy'n ceisio lloches
- pobl ifanc o deuluoedd incwm isel neu o ardaloedd/grwpiau sydd wedi'u hallgáu yn economaidd-gymdeithasol
- pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)
- pobl ifanc sy'n hysbys i'r system cyfiawnder troseddol
- pobl ifanc nad ydynt yn ymgysylltu ag addysg ffurfiol.

Wrth ddatblygu syniadaeth y strategaeth hon a'i hysgrifennu rydym wedi ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys prif swyddogion ieuencid, CLILC, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gorfodol, ETS Cymru ac Estyn. Rydym wedi rhannu Strategaeth Gwaith Ieuencid Cenedlaethol Cymru â Grŵp Cyfeirio Trydydd Sector (sefydlwyd y grŵp hwn er mwyn helpu i ddatblygu ein dogfen ymgynghori ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr gwahanol sefydliadau gwaith ieuencid gwirfoddol,

cenedlaethol) a Grŵp y Cynghrair Gwaith Ieuenctid (mae'r grŵp hwn yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol sy'n cynrychioli maes gwaith ieuenctid). Maent wedi ymateb yn gadarnhaol ac mae ymatebion a gafwyd wedi'u hymgorffori yn y papur terfynol. Roedd pawb o'r farn bod sylwadau o'r ymgynghoriad wedi'u hystyried.

Ceir y prif ddatblygiadau rhwng y ddogfen ymgynghori a'r strategaeth newydd ym mharagraff 20 o SF/HL/0311/14.

## **Cam 5. Cofnodi a chyhoeddi'r canlyniad**

Cymeradwyodd y Gweinidog Addysg y Strategaeth Gwaith Ieuencid Cenedlaethol ar 12 Chwefror 2014 o dan SF/HL/0311/14. Yn yr SF gofynnwyd i'r Gweinidog nodi'r crynodeb o ymatebion a gafwyd o'r ymgynghoriad â phobl ifanc.

Mae swyddogion wedi gweithio gyda rhanddeiliaid gan gynnwys Prif Swyddogion Ieuencid, CLILC, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gorfodol, ac Estyn i ddatblygu'r strategaeth hon.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad 12 wythnos llawn ar weledigaeth newydd ar gyfer y Gwasanaeth Ieuencid gyda phobl ifanc a rhanddeiliaid. Contractiwyd yr ymgynghoriad â phobl ifanc i Youth Friendly a gynhaliodd ymgynghoriadau â phobl ifanc. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid gan swyddogion ar-lein ac mewn pedwar gweithdy ledled Cymru.

Rhannodd Llywodraeth Cymru fersiynau drafft o Strategaeth Gwaith Ieuencid Cenedlaethol Cymru â Grŵp Cyfeirio'r Trydydd Sector a Grŵp y Cynghrair Gwaith Ieuencid sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol sy'n cynrychioli maes gwaith Ieuencid. Cafwyd ymateb cadarnhaol ac ystyriwyd y sylwadau a gafwyd wrth ddrafftio'r ddogfen derfynol.

Caiff y strategaeth ei lansio gan y Dirprwy Weinidog ar 20 Chwefror yn y Genhadledd Genedlaethol ar Waith Ieuencid.

## **Cam 6. Adolygu'r darn o waith fel bo'r angen**

Bydd Swyddogion Llywodraeth Cymru yn datblygu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ac yn ei roi ar waith erbyn mis Medi 2015.

Bydd Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru yn ddilys rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2018.

Cwblheir gwerthusiad Annibynnol o gwmpas, gwerth ac effaith darpariaeth gwaith ieuenctid, gan gynnwys ei gyfraniad i gyflogadwyedd, erbyn mis Ebrill 2017.

Bydd y Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Weinidogion a swyddogion am y cynnydd a wnaed o ran rhoi'r strategaeth ar waith yn ogystal â darparu adborth gwerthfawr ar drafodaethau allweddol.

**Gellir gofyn am y cofnodion hyn ar unrhyw adeg ar gyfer ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, i ddibenion monitro neu wybodaeth i'w adrodd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.**

## Cyllidebau

<b>O ganlyniad i gwblhau'r Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, a oes unrhyw effaith ar gyllidebau?</b> Mae'n bwysig, pan gaiff unrhyw newidiadau eu gwneud i gynlluniau gwario, gan gynnwys pan fydd dyraniadau ychwanegol wedi'u gwneud, fod yr Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i asesu a bod tystiolaeth wedi'i darparu i'w ategu.	<b>Oes</b>
<b>Rhowch unrhyw fanylion:</b>  Dyfarnodd Llywodraeth Cymru contract i Youth Friendly er mwyn iddo gynnal digwyddiadau ymgynghori â phobl ifanc ar y weledigaeth newydd. Cymerodd 127 o bobl ifanc ran yn un o'r pum digwyddiad ymgynghori. Lluniodd Youth Friendly grynodedb o'r ymatebion a gafwyd gan bobl ifanc.  Llunio dogfen hawdd ei darllen i bobl ifanc Cynnal a threfnu pum digwyddiad ymgynghori Darparu crynodeb o'r ymatebion  Cyfanswm – £15,540.00	

## Monitro ac adolygu

<b>A oes angen inni fonitro/adolygu'r cynnig?</b>	<b>Nac oes</b>
<b>Os yn berthnasol: gosodwch y dyddiad adolygu</b>	<b>Ebrill 2017</b>